# CBAC Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

## Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

I'w asesu gyntaf o 2024

# Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (Mewnol)

Fersiwn 3 - Ionawr 2024



# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Cywiro gwall mewn bandiau marcio ar gyfer Tasg 1(a) (i) | 9 |
| 3 | Diweddarwyd datganiadau Taflen Farciau'r Ganolfan. | 22 |

© WJEC CBAC Cyf.

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **UNED 6:** | | |
| | Aseiniad | 4 |
| | Cynllun marcio | 8 |
| | Mapio | 20 |
| | Taflen Farciau'r Ganolfan | 21 |


© WJEC CBAC Cyf.

**LEFEL 3**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:**
**EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**UNED 6 GWEITHIO YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**

**AMSER: 18 AWR**

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

**Aseiniad**
Mae gofyn i chi ymchwilio i leoliad/gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhaid i'r ymchwiliad ganolbwyntio ar leoliad/gwasanaeth rydych chi wedi cael profiad uniongyrchol ohono fel rhan o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector. Hefyd, bydd angen i chi ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gawsoch yn yr ystafell ddosbarth.

Dylech chi gynllunio eich ymchwiliad gan ystyried y canlynol:
- sut byddwch chi'n casglu tystiolaeth fel rhan o'ch ymgysylltu â'r sector wrth baratoi i gwblhau'r tasgau gosod
- y canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer pob tasg osod.

Gallwch chi drafod eich lleoliad/gwasanaeth dewisol a'ch cynllun gyda'ch athro/athrawes.

Nid oes cyfyngiadau ar yr adnoddau y gallwch chi eu defnyddio wrth gwblhau'r asesiad hwn. Rhaid i chi gynnwys eich ymchwil i gyd yn eich dyddiadur myfyriol. Y dystiolaeth ar gyfer y dasg hon yw darn estynedig o ysgrifennu tua 5,000 o eiriau i gyd (heb gynnwys cyfeiriadu a llyfryddiaeth).

**Dylech chi dreulio tua 18 awr yn cynhyrchu eich tystiolaeth.**

Ni allwch chi ddefnyddio'r rhyngrwyd wrth gwblhau'r asesiad hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR A CHANOLFANNAU

**Rhaid cyflwyno** cofnod o oriau gyda'r asesiad dan reolaeth hwn er mwyn dangos tystiolaeth o ymgysylltu â'r sector. Rhaid i oruchwyliwr y lleoliad gwaith lofnodi'r oriau gafodd eu treulio yn y lleoliad gwaith fel tystiolaeth.

Mae disgwyl **hefyd** i ddysgwyr lunio dyddiadur myfyriol ar eu cyfnod o ymgysylltu â'r sector **i'w gyflwyno gyda'r** dasg dan reolaeth hon. Gallai'r dyddiadur myfyriol fod ar ffurf dyddiadur ysgrifenedig, blog electronig, llyfr lloffion, dyddlyfr, dyddiadur fideo neu nodiadau. Rhaid sicrhau bod dolenni neu ffeiliau electronig ar gael ar gyfer fersiynau electronig o'r dyddiadur myfyriol a rhaid sganio fersiynau copi caled ohono i'w cyflwyno, ar gais.

Rhaid cyflwyno holl dystiolaeth yr asesiad hwn i CBAC i'w farcio'n allanol erbyn 11 Mehefin.

Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn glir ar bob darn o waith sy'n cael ei gyflwyno i'w farcio. Rydym yn argymell cynnwys enw a rhif y ganolfan, a rhoi enwau a rhifau arholiad yr ymgeiswyr ar bob tudalen.

© WJEC CBAC Cyf.

## Aseiniad

Mae gofyn i chi ymchwilio i leoliad/gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. **Rhaid** i'r ymchwiliad hwn ganolbwyntio ar leoliad/gwasanaeth rydych chi wedi cael profiad uniongyrchol ohono fel rhan o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector.

(a) (i) Ysgrifennwch gyflwyniad *(introduction)* am y lleoliad/gwasanaeth.
Amlinellwch:

- brif bwrpas y lleoliad/gwasanaeth dewisol
- rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth.

**[12 marc] [AA1, 6.4]**

(ii) Amlinellwch **ddwy** rôl swydd sydd yn y lleoliad/gwasanaeth neu sy'n gysylltiedig i'r lleoliad/gwasanaeth hwnnw.
Rhaid i'ch ymateb gynnwys:

- prif bwrpas y rôl
- y sgiliau penodol sydd eu hangen
- y gofynion o ran cymwysterau
- rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.

**[2x8 = 16 marc][AA1, 6.1]**

(iii) Ystyriwch sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliad/gwasanaeth i wneud y canlynol:

- gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal hwn.

Defnyddiwch enghreifftiau o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector i ategu eich ateb.

**[10 marc] [AA3, 6.7]**

(b) Dewiswch **dri** o'r canlynol ac archwiliwch eu pwysigrwydd yng ngwaith lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhowch enghraifft o sut rydych chi wedi gweld pob un o'r tri o'ch dewis chi yn cael eu dangos yn eich cyfnod o ymgysylltu â'r sector:

- cyfathrebu effeithiol
- cydgynhyrchu
- cydweithio
- gwaith tîm
- proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

**[3x6 =18 marc][AA3, 6.2]**

(c) (i) Esboniwch sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso.

**[10 marc][AA2, 6.5]**

(ii) Amlinellwch y canlyniadau posibl o beidio â dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad/gwasanaeth.

**[8 marc] [AA1, 6.5]**

(ch) Dadansoddwch sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
Defnyddiwch enghreifftiau o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector i ategu eich ateb.

**[12 marc] [AA3, 6.3]**

© WJEC CBAC Cyf.

(d) Esboniwch sut gallai gwahanol ddulliau gael eu defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth i fodloni anghenion a gofynion unigolion.

**[10 marc][AA2, 6. 6]**

(dd) (i) Esboniwch sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth.

**[10 marc][AA2, 6.8]**

(ii) Gan gyfeirio at ddamcaniaethwyr perthnasol, esboniwch sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth fyfyrio ar eu hymarfer wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth maen nhw'n eu darparu i unigolion a'u teuluoedd.

**[14 marc][AA2, 6.8]**

**Cyfanswm Marciau:[120 marc]**

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynllun Marcio Uned 6 ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad**

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys marciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodiad, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Mae dau gam i'r broses hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

**Safoni mewnol**

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy wefan ddiogel CBAC ar ddiwrnod y canlyniadau.

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynllun marcio wedi'i gwtogi yw hwn. Mae'r fersiwn cyflawn gyda'r cynnwys dangosol yn rhan ohono i'w gael ar wefan ddiogel CBAC [www.wjecservices.co.uk](www.wjecservices.co.uk)**

**Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**UNED 6 Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol**

**Tasg:**

| (a) (i) | **Ysgrifennwch gyflwyniad (*introduction*) am y lleoliad/gwasanaeth.**<br><br>**Amlinellwch:**<br>• **brif bwrpas y lleoliad/gwasanaeth dewisol**<br>• **rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau gweithwyr sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth.** **[12 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **10-12 marc**<br>Ymateb gwych sy'n:<br>• cyflwyno manylion llawn y lleoliad/gwasanaeth yn eglur ac yn briodol<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o brif bwrpas lleoliad/gwasanaeth dewisol yr ymgeisydd<br>• cynnig amlinelliad manwl o rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogeion sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| **3** | **7-9 marc**<br>Ymateb da sy'n:<br>• cyflwyno manylion y lleoliad/gwasanaeth yn briodol<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o brif bwrpas lleoliad/gwasanaeth dewisol yr ymgeisydd<br>• cynnig amlinelliad o rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogeion sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| **2** | **4-6 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n:<br>• cyflwyno'r lleoliad/gwasanaeth gyda rhai manylion<br>• dangos peth gwybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpas lleoliad/gwasanaeth dewisol yr ymgeisydd<br>• cynnig amlinelliad cyfyngedig o rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogeion sy'n gweithio yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n:<br>• cyflwyno'r lleoliad/gwasanaeth heb lawer o fanylion<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o brif bwrpas lleoliad/gwasanaeth dewisol yr ymgeisydd<br>• cynnig fawr ddim gwybodaeth am rôl y cyflogwr yn hybu ac amddiffyn hawliau'r cyflogeion yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

<table>
<tr><td>(a) (ii)</td><td colspan="2">Amlinellwch ddwy rôl swydd sydd yn y lleoliad/gwasanaeth neu sy'n gysylltiedig i'r lleoliad/gwasanaeth hwnnw.<br>Rhaid i'ch ymateb gynnwys:<br>• prif bwrpas y rôl<br>• y sgiliau penodol sydd eu hangen<br>• y gofynion o ran cymwysterau<br>• rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.<br>[2x8 marc, 8 marc am bob rôl swydd: Cyfanswm o 16 marc]</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="2">AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td>Band</td><td>Rôl 1</td><td>Rôl 2</td></tr>
<tr><td>4</td><td>7-8 marc<br>Amlinelliad gwych sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio'n gadarn at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td><td>7-8 marc<br>Amlinelliad gwych sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio'n gadarn at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td></tr>
<tr><td>3</td><td>5-6 marc<br>Amlinelliad da sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td><td>5-6 marc<br>Amlinelliad da sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td></tr>
<tr><td>2</td><td>3-4 marc<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio rhywfaint at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td><td>3-4 marc<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio rhywfaint at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td></tr>
<tr><td>1</td><td>1-2 farc<br>Amlinelliad cyfyngedig sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td><td>1-2 farc<br>Amlinelliad cyfyngedig sy'n gwneud y canlynol:<br>• dangos fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o brif bwrpas y rôl ddewisol<br>• cyfeirio fawr ddim, os o gwbl, at y sgiliau penodol sydd eu hangen, y gofynion o ran cymwysterau a rheoleiddio proffesiynol fel sy'n briodol i'r rôl.</td></tr>
<tr><td></td><td>0 marc<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</td><td>0 marc<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Cyf.

| (a) (iii) | **Ystyriwch sut mae deddfwriaeth, rheoliadau a fframweithiau Cymru wedi dylanwadu ar ymarfer yn y lleoliad/gwasanaeth i wneud y canlynol:**<br>• **gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau**<br>• **llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal.**<br>**Defnyddiwch enghreifftiau o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector i ategu eich ateb.**<br>**[10 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Ymateb gwych sy'n dangos y canlynol:<br>• ystyriaeth gadarn o sut mae deddfwriaeth ac arferion rheoleiddio Cymru mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn anelu at y canlynol:<br>    • gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>    • llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal<br>• defnydd effeithiol o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu eu hymateb. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos y canlynol:<br>• ystyriaeth glir o sut mae deddfwriaeth ac arferion rheoleiddio Cymru mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn anelu at y canlynol:<br>    • gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>    • llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal<br>• peth defnydd o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu eu hymateb. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos y canlynol:<br>• peth ystyriaeth o sut mae deddfwriaeth ac arferion rheoleiddio Cymru mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn anelu at y canlynol:<br>    • gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>    • llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal<br>• defnydd cyfyngedig o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu eu hymateb. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos y canlynol:<br>• fawr ddim ystyriaeth o sut mae deddfwriaeth ac arferion rheoleiddio Cymru mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn anelu at y canlynol:<br>    • gwella gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>    • llywio polisi ac ymarfer er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unigolion sy'n cael mynediad at y gofal<br>• fawr ddim defnydd, os o gwbl, o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu eu hymateb. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (b) | **Dewiswch dri o'r canlynol ac archwiliwch eu pwysigrwydd yng ngwaith lleoliadau/gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhowch enghraifft o sut rydych chi wedi gweld pob un o'r tri o'ch dewis chi yn cael eu dangos yn eich cyfnod o ymgysylltu â'r sector:**<br>• **cyfathrebu effeithiol**<br>• **cydgynhyrchu**<br>• **cydweithio**<br>• **gwaith tîm**<br>• **proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.**<br>[3x6 = 18 marc] | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* | | |
| | **Enghraifft 1** | **Enghraifft 2** | **Enghraifft 3** |
| | | | **58** |
| **3** | **5-6 marc**<br>Archwiliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft briodol a manwl wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod ymgysylltu â'r sector yr ymgeisydd. | **5-6 marc**<br>Archwiliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft briodol a manwl wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod ymgysylltu â'r sector yr ymgeisydd. | **5-6 marc**<br>Archwiliad da iawn sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft briodol a manwl wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod ymgysylltu â'r sector yr ymgeisydd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Archwiliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cydgynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft berthnasol a phriodol wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod yr ymgeisydd o ymgysylltu â'r sector. | **3-4 marc**<br>Archwiliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cydgynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft berthnasol a phriodol wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod yr ymgeisydd o ymgysylltu â'r sector. | **3-4 marc**<br>Archwiliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cydgynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Enghraifft berthnasol a phriodol wedi'i rhoi o sut mae hyn wedi'i ddangos yng nghyfnod yr ymgeisydd o ymgysylltu â'r sector. |

© WJEC CBAC Cyf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **1-2 marc**<br>Archwiliad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Efallai nad yw'r enghraifft a roddir yn berthnasol a'i bod yn cynnig manylder cyfyngedig. | **1-2 marc**<br>Archwiliad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Efallai nad yw'r enghraifft a roddir yn berthnasol a'i bod yn cynnig manylder cyfyngedig. | **1-2 marc**<br>Archwiliad sylfaenol sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o bwysigrwydd un o'r canlynol:<br>• cyfathrebu effeithiol<br>• cyd gynhyrchu<br>• cydweithio<br>• gwaith tîm<br>• proffesiynoldeb yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>Efallai nad yw'r enghraifft a roddir yn berthnasol a'i bod yn cynnig manylder cyfyngedig. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (c) (i) | **Esboniwch sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso. [10 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Esboniad gwych sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o ddiogelu<br>• dealltwriaeth gadarn o sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ddiogelu<br>• dealltwriaeth dda ar y cyfan o sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• peth gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu<br>• peth dealltwriaeth o sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim o wybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu.<br>• fawr ddim o ddealltwriaeth o sut mae diogelu'n cael ei gyflawni o fewn y lleoliad/gwasanaeth er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn gallu byw heb niwed, cam-drin ac esgeuluso. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (c) (ii) | **Amlinellwch y canlyniadau posibl o beidio â dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad/gwasanaeth .** [8 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA1:** *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **7-8 marc**<br>Amlinelliad gwych sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r canlyniadau posibl ar gyfer y canlynol:<br>• unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth<br>• unigolion sy'n torri'r gweithdrefnau a pholisïau<br>• y lleoliad/gwasanaeth<br>os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau diogelu. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r canlyniadau posibl ar gyfer y canlynol:<br>• unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth<br>• unigolion sy'n torri'r gweithdrefnau a pholisïau<br>• y lleoliad/gwasanaeth<br>os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau diogelu. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlyniadau posibl ar gyfer y canlynol:<br>• unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth<br>• unigolion sy'n torri'r gweithdrefnau a pholisïau<br>• y lleoliad/gwasanaeth<br>os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau diogelu. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Amlinelliad cyfyngedig heb fawr o wybodaeth na dealltwriaeth o'r canlyniadau posibl ar gyfer y canlynol:<br>• unigolion sy'n cael mynediad at ofal a chymorth<br>• unigolion sy'n torri'r gweithdrefnau a pholisïau<br>• y lleoliad/gwasanaeth<br>os na ddilynir polisïau a gweithdrefnau diogelu. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (ch) | **Dadansoddwch sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.**<br>**Defnyddiwch enghreifftiau o'ch cyfnod o ymgysylltu â'r sector i ategu eich ateb.** [12 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA3:** *Dadansoddi a gwerthuso damcaniaethau ac ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dangos dealltwriaeth, myfyrio ar y ffordd y gallant ddylanwadu ar ymarfer, ffurfio barn resymegol a dod i gasgliadau.* |
| **4** | **10-12 marc**<br>Ymateb gwych sy'n dangos y canlynol:<br>• dadansoddiad cadarn o sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>• defnydd effeithiol o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu'r ymateb<br>• trafodaeth hyderus a manwl sy'n arwain at gasgliad cadarn a rhesymegol. |
| **3** | **7-9 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos y canlynol:<br>• dadansoddiad clir o sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>• rhywfaint o ddefnydd o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu'r ymateb<br>• trafodaeth fanwl yn arwain at gasgliad rhesymegol. |
| **2** | **4-6 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos y canlynol:<br>• peth dadansoddiad o sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>• defnydd cyfyngedig o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu'r ymateb<br>• trafodaeth syml sy'n arwain at gasgliad sylfaenol. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos y canlynol:<br>• fawr ddim dadansoddiad o sut mae codau ymddygiad/ymarfer proffesiynol yn cael eu cadw a'u cymhwyso yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol<br>• ychydig iawn o ddefnydd, os o gwbl, o enghreifftiau o gyfnod yr ymgeisydd yn ymgysylltu â'r sector i ategu'r ymateb<br>• trafodaeth gyfyngedig heb ddod i unrhyw gasgliad. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| (d) | **Esboniwch sut gallai gwahanol ddulliau gael eu defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth i fodloni anghenion a gofynion unigolion.** **[10 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br>Esboniad gwych sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o wahanol ddulliau<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gallai gwahanol ddulliau fod wedi'u defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd gan ymgeiswyr i fodloni anghenion a gofynion unigolion. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir yn gyffredinol o wahanol ddulliau<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gallai gwahanol ddulliau fod wedi'u defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd gan ymgeiswyr i fodloni anghenion a gofynion unigolion. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o wahanol ddulliau<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gallai gwahanol ddulliau fod wedi cael eu defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd gan ymgeiswyr i fodloni anghenion a gofynion unigolion. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr o wybodaeth a dealltwriaeth o wahanol ddulliau<br>• fawr o ddealltwriaeth o sut gallai gwahanol ddulliau fod wedi cael eu defnyddio yn y lleoliad/gwasanaeth a brofwyd gan ymgeiswyr i fodloni anghenion a gofynion unigolion. |
|  | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| **(dd) (i)** | **Esboniwch sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth.** [10 marc] |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **8-10 marc**<br><br>Esboniad gwych sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o ymarfer myfyriol<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| **3** | **6-7 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ymarfer myfyriol<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **2** | **4-5 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer myfyriol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| **1** | **1-3 marc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer myfyriol<br>• fawr ddim dealltwriaeth o sut mae ymarfer myfyriol yn cefnogi datblygiad proffesiynol gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

| **(dd) (ii)** | **Gan gyfeirio at ddamcaniaethwyr perthnasol, esboniwch sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth fyfyrio ar eu hymarfer wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth maen nhw'n eu darparu i unigolion a'u teuluoedd.** **[14 marc]** |
|---|---|
| **Band** | **AA2:** *Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion a chyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol.* |
| **4** | **13-14 marc**<br>Esboniad gwych sy'n gwneud y canlynol:<br>• cyfeirio'n gadarn at safbwyntiau damcaniaethwyr er mwyn esbonio sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a thrylwyr o sut mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn defnyddio gwahanol ffyrdd i fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos dealltwriaeth hyderus o sut mae ymarfer myfyriol yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu darparu ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. |
| **3** | **9-12 marc**<br>Esboniad da sy'n gwneud y canlynol:<br>• cyfeirio at safbwyntiau damcaniaethwyr er mwyn esbonio sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn defnyddio gwahanol ffyrdd i fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae ymarfer myfyriol yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn eu darparu ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. |
| **2** | **5-8 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n gwneud y canlynol:<br>• cyfeirio rhywfaint at safbwyntiau damcaniaethwyr er mwyn esbonio sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ar y cyfan o sut mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn defnyddio gwahanol ffyrdd i fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos peth dealltwriaeth o sut mae ymarfer myfyriol yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn eu darparu ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. |
| **1** | **1-4 marc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n gwneud y canlynol:<br>• cyfeirio ychydig neu fawr ddim at safbwyntiau damcaniaethwyr er mwyn esbonio sut gall timau iechyd a gofal cymdeithasol fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn defnyddio gwahanol ffyrdd i fyfyrio ar eu hymarfer<br>• dangos fawr ddim dealltwriaeth o sut mae ymarfer myfyriol yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a gwella'r gofal a'r cymorth mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y lleoliad/gwasanaeth yn eu darparu ar gyfer unigolion a'u teuluoedd. |
| | **0 marc**<br>Ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

© WJEC CBAC Cyf.

## Mapio tasgau Asesiad Di-arholiad Uned 6 i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

| Tasgau | Cynnwys y fanyleb | | | | | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adran | | | | | | | | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | 6.1 | 6.2 | 6.3 | 6.4 | 6.5 | 6.6 | 6.7 | 6.8 | | | | |
| **(a) (i)** | | | | a (i) | | | | | | 12 | | |
| **(ii)** | a (ii) | | | | | | | | | 16 | | |
| **(iii)** | | | | | | | a (iii) | | | | | 10 |
| **(b)** | | (b) | | | | | | | | | | 18 |
| **(c) (i)** | | | | | (c) (i) | | | | | | 10 | |
| **(ii)** | | | | | (c) (ii) | | | | | 8 | | |
| **(ch)** | | | (ch) | | | | | | | | | 12 |
| **(d)** | | | | | | (d) | | | | | 10 | |
| **(dd) (i)** | | | | | | | | (dd) (i) | | | 10 | |
| **(ii)** | | | | | | | | (dd) (ii) | | | 14 | |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | | **120** | **36** | **44** | **40** |

© WJEC CBAC Cyf.

**Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau**

**Asesiad di-arholiad: Aseiniad Uned 6**

**Enw'r Ymgeisydd:**

**Rhif yr Ymgeisydd:**

**Enw’r Ganolfan:**

**Rhif y Ganolfan:**

| Asesiad di-arholiad: Aseiniad Uned 6 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Aseiniad | | Marc Uchaf | Marc y Ganolfan | Marc y Cymedrolwr | Sylwadau'r Ganolfan |
| Tasg | (a) (i) | 12 | | | |
| | (a) (ii) | 16 | | | |
| | (a)(iii) | 10 | | | |
| | (b) | 18 | | | |
| | (c) (i) | 10 | | | |
| | (c) (ii) | 8 | | | |
| | (ch) | 12 | | | |
| | (d) | 10 | | | |
| | (dd) (i) | 10 | | | |
| | (dd) (ii) | 14 | | | |
| CYFANSWM | | 120 | | | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Asesiad di-arholiad: Sylwadau |
|---|
| **I'w gwblhau gan yr unigolyn sy'n goruchwylio'r asesiad di-arholiad.**<br>Nodwch ble gafodd cymorth y tu hwnt i arweiniad goruchwylio arferol ei roi a sut mae hyn wedi effeithio ar y marciau a gafodd eu dyfarnu. |
| |

| Rhestrwch y ffynonellau gwybodaeth a gafodd eu defnyddio wrth ddatblygu'r asesiad di-arholiad. |
|---|
| |

| HYSBYSIAD I YMGEISWYR |
|---|
| Rhaid i'r gwaith rydych yn ei gyflwyno i'w asesu fod wedi ei wneud gennych chi.<br>Os byddwch wedi copïo gwaith rhywun arall, wedi caniatáu i ymgeisydd arall gopïo eich gwaith chi, neu wedi twyllo mewn unrhyw ffordd arall, mae'n bosibl y cewch eich diarddel o'r cymhwyster dan sylw o leiaf. |

| DATGANIAD GAN YR ATHRO/ATHRAWES | DATGANIAD GAN YR YMGEISYDD |
|---|---|
| Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd wedi ei gyflawni o dan yr amodau a nodwyd yn y fanyleb.<br>Rwyf wedi dilysu gwaith yr ymgeisydd ac rwyf yn fodlon, hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod y gwaith wedi ei gyflawni gan yr ymgeisydd yn unig.<br>Mae'r ymgeisydd wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr athro/athrawes**:<br><br>**Dyddiad:** | Rwyf wedi darllen a deall yr **Hysbysiad i Ymgeiswyr** (uchod).<br>Rwyf wedi cynhyrchu'r gwaith atodedig heb gymorth, heblaw am y cymorth hwnnw mae fy athro/athrawes wedi esbonio ei fod yn dderbyniol o fewn y fanyleb.<br>Yr wyf wedi cyfeirio'n glir at unrhyw ffynonellau ac unrhyw offer DA a ddefnyddiwyd yn y gwaith. Rydw i'n deall bod gwneud datganiad ffug yn fath o gamymddwyn.<br><br>**Llofnod yr ymgeisydd:**<br><br>**Dyddiad:** |

© WJEC CBAC Cyf.